Cyngor Tref Llandeilo Fawr
Llandeilo Fawr Town Council

Cofnodion Pwyllgor Cynllunio a Dibenion Cyffredinol Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ddydd Mercher, Gorffennaf 11eg, 2007 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7.00 pm

Presennol: Cyng Richard Wallace, Cyng Colin Jenkins, Cyng Dawn Wallace, Cyng Charlotte Leadbeater,
Des Davies (Swyddog Technegol) Roger Phillips Clerc y Dref.

Ymddiheuriadau Cyng Fran Murphy, Cyng Roy Davies, Cyng Edward Thomas

Cof 105 /Gorffennaf / 07 Ceisiadau Cynllunio i'w Penderfynu
E/16685 Estyniad un llawr yn 11, Heol Alan
Sylw : Dim gwrthwynebiadau
E/16754 Addasu uned breswyl llawr cyntaf ac ail sydd eisoes yn bodoli yn 2 uned breswyl yn
44, Heol Rhosmaen
Sylw :Pryder o ran parcio a diffyg mynediad i gerbydau brys (dim mynediad tân)

Cof 106 / Gorffennaf/ 07 Penderfyniadau ar Geisiadau Cynllunio
Caniatawyd y ceisiadau cynllunio canlynol gan Bwyllgor Cynllunio CSC.
E/15641 Arwydd ymwthiol a phaneli ar y wal yn 121, Heol Rhosmaen
E/16179 Estyniad ochr un llawr ar gyfer ystafell aml-bwpras/tŷ bach i fyngalo yn 5, Heol Rhosmaen.
E/16180 Estyniad deulawr i anheddle yn 35, Heol Newydd
E/16181 Addasu Gwesty Gwely a Brecwast yn 2 Fflat yn 12, Heol Rhosmaen

Cof 107 / Gorffennaf/ 07 Ni thynnwyd unrhyw Gynllunio yn ôl.

Cof 108 / Gorffennaf / 07 Cludiant a Phriffyrdd
i) Adroddiad o gyfarfod Davies Richards
Dosbarthodd y Cyng Roy Davies adroddiad o'r cyfarfod. Rhoddir copïau o'r adroddiad i aelodau sy'n absennol a thrafodir yr adroddiad yn ystod cyfarfod cynllunio mis Medi.
ii) Adroddiad o gyfarfod gyda Mr John McEvoy, Rheolwr Traffig CSC.
Mynychodd y Maer Cyng Richard Wallace a'r Cyng Colin Jenkins gyfarfod mewn perthynas â Stryd y Farchnad a Stryd y Brenin. Bydd Mr McEvoy yn adrodd yn ôl i'r Cyngor gyda strategaethau ar gyfer gwella llif y traffig yn yr ardal hon. Mae angen gwneud ymholiadau pellach gydag adran Drafnidiaeth CSC mewn perthynas â'r man parcio i fysiau. Bydd y Cyng Richard Wallace a'r Cyng Colin
Jenkins yn cwrdd â swyddog o'r adran Drafnidiaeth.

Cof 109 / Gorffennaf / 07 Cynnal a chadw Neuadd y Sir
i) Profi'r Trydan.
Cynigiwyd gan y Cyng Colin Jenkins y dylid gofyn i Charles Sams gyflawni'r gwaith o brofi'r trydan a pharatoi adroddiad i'r cyngor fel mater o frys. Eiliwyd gan y Cyng Richard Wallace. Roedd pawb o blaid.

Cynigiwyd gan y Cyng Colin Jenkins fod y Swyddog Technegol yn llunio rhestr o gontractwyr cymwys ac ni ddylid gwneud unrhyw waith heb gysylltu â'r Swyddog Technegol.
ii) Cynnal a Chadw'r Boeler. Gosodwyd boeler newydd yn y Flwyddyn 2000, a thalodd y Cyngor Tref amdano. Argymhellwyd gofyn i'r Swyddog Cyllid am unrhyw ddogfennaeth mewn perthynas â'r hyn a brynwyd.

Cof 110/ Gorffennaf / 07 Adroddiad Llwybrau Troed.
Nodwyd gan y Swyddog Technegol fod y rhwyll wifrog sydd ar hyd ymyl Pont y Brenin mewn cyflwr gwael. Argymhellwyd gan y Cyng Colin Jenkins y dylid anfon llythyr at Kevin Thomas a Caroline Ferguson CSC yn eu hysbysu o'r angen i wneud gwaith cynnal a chadw ar frys. Eiliwyd gan y Cyng Richard Wallace.

Cof 111/ Gorffennaf / 07 Gohebiaeth
1. Rhybudd o gyfarfod Davies Richards ar 26ain Gorffennaf yn Neuadd y Sir am 3.30pm
2. E bost gan Kevin Phillips, Swyddog Cynllunio mewn perthynas â chadw'r coed sydd o amgylch yr eiddo ym Mrondeg.
3. E bost gan Kevin Phillips, Swyddog Cynllunio yn gofyn am sylwadau ar Gais E/15949 . Clerc i ateb yn nodi bod barn y Cyngor fel a gofnodwyd yng Nghofnod 73 / Mehefin /07.

Cof 112/ Gorffennaf / 07 Unrhyw eitemau eraill o fusnes sydd am resymau arbennig, yn ôl penderfyniad y Cadeirydd yn haeddu sylw brys, yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

.
Daeth y cyfarfod i ben am 8.00pm